



Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol  
Temple Quay House  
2 Y Sgwâr  
Bryste, BS1 6PN

Gwasanaethau 0303 444 5000  
Cwsmeriaid:  
e-bost: [monaoffshorewindproject@planninginspectorate.gov.uk](mailto:monaoffshorewindproject@planninginspectorate.gov.uk)

Eich Cyf: MNOW-OP005

Ein Cyf: EN010137

Dyddiad: 17 Mehefin 2024

Annwyl Yr Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (Gogledd Iwerddon),

**Deddf Gynllunio 2008 (fel y'i diwygiwyd) (PA2008) a Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 (fel y'u diwygiwyd) (EPR) – Adran 88 a Rheol 6**

**Cais gan Mona Offshore Wind Limited am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer Fferm Wynt Alltraeth Mona**

**Statws Person Arall mewn archwiliad**

Mae'r Awdurdod Archwilio (ExA) wedi penderfynu rhoi statws 'Person Arall' (OP) i chi yn yr archwiliad. Bydd hyn yn sicrhau eich bod yn derbyn gohebiaeth berthnasol gan yr Arolygiaeth yn gysylltiedig â'r archwiliad hwn o'r cais hwn.

Eich rhif cyfeirnod yw: MNOW-OP005

O dan Adran 88(3) PA2008 a Rheol 6(1) y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (EPR), gall yr Awdurdod Archwilio wahodd unigolion eraill yr ystyriant eu bod yn briodol i'r Cyfarfod Rhagarweiniol. At ddibenion gwybodaeth, anfonir at unigolyn a wahoddir i'r Cyfarfod Rhagarweiniol yn y modd hwn, y llythyr Rheol 8 sy'n cadarnhau amserlen yr archwiliad, hefyd. Anfonir atynt yn ogystal unrhyw ddiwygiadau i'r amserlen honno o dan Reol 8(3) y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol.

Dylech drin y llythyr hwn felly fel eich gwahoddiad i'r Cyfarfod Rhagarweiniol a gynhelir ar **Ddydd Mawrth 16 Gorffennaf 2024 am 10:00yb (cofrestru 09:30), ym mherson yn Venue Cymru, Promenâd, Llandudno, LL30 1BB ac ar-lein gan ddefnyddio Microsoft Teams**. Cafodd y llythyr 'Rheol 6' ei gyhoeddi ar **7 Mehefin 2024** a chafodd ei anfon at bob parti â buddiant, sy'n cynnwys gwybodaeth bwysig am y digwyddiad. Darperir cadarnhad o'ch statws fel 'unigolyn arall' yn Atodiad B.

Yn bwysig, dylech wybod nad oes hawl awtomatig i unigolion eraill wneud sylwadau yn ystod yr archwiliad, gan nad oes ganddynt statws partïon â buddiant. Os byddwch yn dymuno gwneud sylwadau, fodd bynnag, dylech eu cyflwyno i'r Awdurdod Archwilio yn unol â'r terfynau amser priodol a bennwyd yn amserlen yr archwiliad. Gallwch wneud cais hefyd i siarad mewn unrhyw wrandawiadau. O dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol, mae gan yr Awdurdod Archwilio ddisgresiwn i ganiatáu i sylwadau gan unigolion eraill, yn ysgrifenedig ac ar lafar.

Hefyd, gall unrhyw unigolyn, p'un a yw wedi cael ei wahodd i'r Cyfarfod Rhagarweiniol neu beidio, wneud cais i fod yn barti â buddiant os yw'n bodloni'r meini prawf yn a102A PA2008. Os oes gennych fuddiant cyfreithiol yn y tir yr effeithir arno gan y cynllun, ac nad ydych eisoes wedi cofrestru i fod yn barti â buddiant, yna gallwch wneud cais i'r Awdurdod Archwilio i fod yn barti â buddiant o dan a102A PA2008.

Os oes unrhyw gwestiynau gennych, neu os oes angen eglurhad arnoch ynglŷn â chynnwys y llythyr hwn, mae pob croeso i chi gysylltu â mi.

Yr eiddoch yn gywir,

*Jake Stephens*

**Jake Stephens**  
**Rheolwr Achos**